# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 3

GWEITHREDU CWRICWLWM

*Addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir*

### 34 Dyletswydd i sicrhau gweithrediad y cwricwlwm mabwysiedig

(1) Rhaid i ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir sicrhau bod y cwricwlwm mabwysiedig yn cael ei weithredu i blant yn unol ag adrannau 35 a 36.

(2) Rhaid i awdurdod lleol sy'n sicrhau addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau bod y cwricwlwm mabwysiedig yn cael ei weithredu yn unol ag adrannau 35 a 36 i blant y darperir yr addysg honno ar eu cyfer.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 34 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 34 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(c), **Atod.**

### 35 Gofynion gweithredu cyffredinol

Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig mewn ffordd—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir. (See end of Document for details)*

(a) sy'n galluogi pob plentyn i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben,
(b) sy'n sicrhau addysgu a dysgu sy'n cynnig cynnydd priodol ar gyfer pob plentyn,
(c) sy'n addas ar gyfer oedran, gallu a dawn pob plentyn,
(d) sy'n ystyried anghenion dysgu ychwanegol pob plentyn (os oes rhai), ac
(e) sy'n sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys i bob plentyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 35 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I4** A. 35 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(c), **Atod.**

## 36 Gofynion sy'n ymwneud â meysydd dysgu a phrofiad a sgiliau trawsgwricwlaidd

(1) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig mewn ffordd sy'n sicrhau addysgu a dysgu i bob plentyn—

(a) sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad (gan gynnwys yr elfennau mandadol o fewn y meysydd hynny), a
(b) sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol.

(2) Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicrheir i blentyn o dan is-adran (1), mewn cysylltiad ag elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, fod yn addas ar gyfer cyfnod datblygu'r plentyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 36 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I6** A. 36 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(c), **Atod.**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir.